

Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2023/24 - 2027/28

Sefydliad:	Prifysgol Bangor
Arweinydd Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru:	Yr Athro Paul Spencer
E-bost:	p.spencer@bangor.ac.uk

Adran A: Trosolwg

1. Uchelgeisiau strategol

Rhowch drosolwg ar ddull pum mlynedd eich sefydliad o gefnogi gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth a sut cânt eu cefnogi gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Efallai y byddwch eisiau tynnu sylw at y meysydd bras yr ydych yn eu targedu, a disgrifio sut maent yn cyd-fynd â chenhadaeth eich sefydliad a'ch strategaethau mewnol. [Uchafswm o 250 o eiriau].

Nod Strategaeth Ymchwil ac Effaith Bangor (2021-2028) yw cysylltu ein rhagoriaeth ymchwil â'n hamgylchedd lleol, gan greu effeithiau i ysgogi adfywiad economaidd a chymdeithasol a chyfrannu at newid mawr ar raddfa leol a rhyngwladol. Mae cyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn darparu'r adnoddau i'n helpu i gyflawni'r uchelgais hwn yn ogystal â'r amcanion yn ein Strategaeth Cyflogadwyedd, Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig, a Strategaeth Busnes, Menter ac Ymgysylltu.

Roedd ein strategaeth gyntaf i Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn cyd-daro â chyfnod sylweddol o newid i'r brifysgol. Defnyddiwyd y cyllid cychwynnol a ddyrannwyd i feithrin capasiti staff a chynyddu arbenigedd i wireddu ein huchelgeisiau ym maes ymchwil ac arloesi, cenhadaeth ddinesig, ac adfywio economaidd rhanbarthol. Mae ail gyfnod y strategaeth hon yn canolbwyntio ar wireddu manteision y capasiti a'r arbenigedd ychwanegol hwnnw.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer cyfnod y strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru hon yn adeiladu ar y strategaeth flaenorol trwy ganolbwyntio adnoddau i gefnogi staff, myfyrwyr, a phartneriaid trwy wireddu ein huchelgeisiau fel a ganlyn:

- Datblygu llwybrau cliriach a mwy o gymhelliant ar gyfer arloesi a masnacheiddio
- Arallgyfeirio ein portffolio o gyfleoedd yn unol ag anghenion arloesi diwydiant a rhanbarthol
- Gwella llwybrau i staff a myfyrwyr ddatblygu'n fasnachol ac yn entrepreneuriaid
- Cefnogi partneriaid allanol i ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd
- Gwireddu uchelgeisiau ein cenhadaeth ddinesig trwy weithio gyda'r gymuned leol

Mae'r uchelgeisiau hyn yn gysylltiedig â'r nodau canlynol:

- Cynyddu incwm ymchwil ac arloesi
- Ymestyn portffolio masnacheiddio, eiddo deallusol ac ymgynghori Bangor

- Cynyddu nifer y busnesau newydd a gychwynnir gan raddedigion a'u hangori yn y rhanbarth fel rhan o ecosystem arloesi a menter.
- Darparu sgiliau arloesol ar gyfer yr economi ranbarthol
- Gweithio gyda rhanddeiliaid
 - i nodi heriau cymdeithasol a mynd i'r afael â hwy
 - i sicrhau twf economaidd a chynaliadwyedd
- i wella ansawdd bywyd trwy gysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol.

2. Grant Capasiti

Disgrifiwch sut mae eich sefydliad yn bwriadu defnyddio'r grant capasiti o £250k sydd wedi ei gynnwys yng Nghronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Sut caiff hwn ei ddefnyddio i gefnogi a gwella capasiti a darparu cymhelliant a gwella perfformiad o safbwynt cyfnewid gwybodaeth? [uchafswm o 250 o eiriau]

Bydd y grant meithrin capasiti yn parhau i gefnogi gweithgarwch craidd a'r capasiti i ddiwallu anghenion ein partneriaid allanol a datblygu yn unol â mesurau arloesi ac ymgysylltu cenedlaethol.

Byddwn yn targedu'r grant capasiti i fodloni'r meysydd angen penodol er mwyn **llunio llwybrau cliriach ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a masnacheiddio**, gan gynnwys:

- Pobl: Ymgorffori arweinyddiaeth a strategaethau ar gyfer twf ein sylfaen ymchwil trwy gyfnewid gwybodaeth, effaith, sgiliau a masnacheiddio.
- Adnoddau: Cefnogi cyfnewid gwybodaeth a masnacheiddio costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau, er mwyn ariannu twf y portffolio eiddo deallusol, ymgorffori cydweithredu â mentrau rhanbarthol gan gynnwys Bargen Twf y Gogledd, a sicrhau hyfforddiant a chyfranogiad llwyddiannus mewn mentrau rhanbarthol a chynlluniau ariannu.

Byddwn yn ariannu'r meysydd hyn mewn dwy ffordd:

Grant Meithrin Capasiti	Rownd 2 Effaith Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru
1. Talu am gostau cyflog swyddi rheoli craidd ymchwil ac arloesi yn y gwasanaethau cefnogi ymchwil ac effaith, i gefnogi darpariaeth academaidd.	Integreiddio'r wybodaeth a'r capasiti a ddarperir gan swyddi craidd i sicrhau bod gweithgarwch gwell wedi ei wreiddio yng ngwaith pob dydd y brifysgol
2. Costau cyfnewid gwybodaeth cymwys a chostau masnacheiddio nad ydynt yn ymwneud â chyflogau, yn cynnwys tanysgrifiadau fel Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn ogystal â diogelu eiddo deallusol a manteisio arno, cynadleddau a digwyddiadau.	Parhau i wreiddio Bangor yn yr ecosystem arloesi, a throsoli gwybodaeth i wella prosesau a gweithdrefnau

Adran B: Cynnwys penodol

3. Masnacheiddio / gweithgarwch cynhyrchu incwm

Nod CAYC yw darparu cymhelliant a gwobrwyo perfformiad, yn arbennig yn nhermau caffael incwm allanol.

Rhowch fanylion sut bydd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn cael ei ddefnyddio i alluogi eich sefydliad i gynyddu ei incwm allanol fel y'i mesurir gan HE-BCI. Beth yw'r prif feysydd o fuddsoddiad a thwf? Sut bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio i adeiladu ar fuddsoddiadau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru blaenorol? Pa weithgaredd newydd fydd yn cael ei gefnogi? Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr WXX/XXHE. Dylech lunio eich ymateb yn nhermau effaith Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar ffyniant cymdeithasol ac economaidd i Gymru. [Uchafswm o 500 o eiriau]

Dylech dynnu sylw at ganolfannau rhagoriaeth ymchwil sydd eisoes yn gweithredu fel canolfannau arloesi.

Byddwn yn cynyddu ein hincwm o ffynonellau allanol, gan ddatblygu **llwybr cliriach a mwy o gymhelliant ar gyfer arloesi, gan amrywio ein portffolio o gyfleoedd yn unol ag anghenion arloesi diwydiannol a rhanbarthol a'r dirwedd newydd o ran polisïau a chyllido.**

Nodau ar gyfer Masnacheiddio a Gweithgarwch Cynhyrchu Incwm

1. Ennill rhagor o incwm ymchwil ac arloesi trwy gystadleuaeth
2. Datblygu ac ymestyn portffolio masnacheiddio, eiddo deallusol ac ymgynghori Bangor

Byddwn yn targedu cymorth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru i gyflawni'r nodau hyn, ar draws tri maes:

Gwella ein perfformiad Cyfnewid Gwybodaeth a Masnacheiddio sefydliadol

Mae masnacheiddio yn y brifysgol yn cynnwys ymelwa ar ymchwil a dod yn sefydliad mwy masnachol, sy'n gydnaws ag anghenion diwydiant a chynyddu nifer y cysylltiadau masnachol cynaliadwy hirdymor y tu hwnt i gyfleoedd a arweinir gan brojectau. Bydd nodi'r llwybrau masnacheiddio mwyaf priodol yn ein galluogi i ganolbwyntio ar ddulliau a gweithgareddau sy'n symud ein heiddo deallusol i fyny'r lefelau parodrwydd technoleg, gan ychwanegu gwerth a chynyddu hyder buddsoddwyr. Byddwn yn cael gwared ar rwystrau i waith sy'n seiliedig ar ymgynghoriaeth ac yn gwobrwyo staff sy'n weithredol yn y maes hwn trwy ddyrannu gorbenion priodol. Byddwn hefyd yn mynd ar drywydd cyfleoedd eraill megis trwyddedu ac ymgysylltu â sefydliadau trydydd sector.

M-SParc – Parc Gwyddoniaeth y brifysgol – yw ein prif hyb arloesi. Mae'n ffurfio rhan bwysig o'n llif masnacheiddio, gyda galluogwyr pwysig eraill megis Canolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio. Bydd sefydlu porthladd rhydd ar Ynys Môn yn golygu bod M-SParc yn cael ei ddynodi fel maes a fydd yn elwa o drethi a buddsoddiad cyfalaf. Er bod y manylion yn dal i ddod i'r amlwg, mae gan hyn y potensial i wneud ein rhanbarth yn fwy deniadol i fewnfuddsoddwyr. Mae'r Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC) a datblygiad posib y Ganolfan Ymchwil Technoleg Uwch yn DECA, yn darparu llwybrau masnacheiddio posib eraill a phartneriaid mewn rhai sectorau (e.e. awyrfod ac amddiffyn, amaethdechnoleg (Canolfan BioGyfansoddion) ac ynni carbon isel).

Gwireddu Agenda Arloesi Seiliedig ar Le

Mae gan Brifysgol Bangor bortffolio o brojectau arloesi seiliedig ar le a gefnogir trwy Fargen Twf y Gogledd. Gan adeiladu ar fuddsoddiadau blaenorol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd

Cymru a Sêr Cymru, mae'r Ganolfan Prosesu Signalau Digidol (offer), Egni (canolfan ynni carbon isel newydd yn M-SParc) a'r Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (cyfleusterau cynyddu diwydiannol) yn fuddsoddiadau cyfalaf sylweddol (tua £18m) mewn asedau arloesi rhanbarthol. Gall cyfleusterau etifeddiaeth o brojectau eraill Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (SEACAMS, SEECs, CALIN) a rhwydwaith o gysylltiadau a phartneriaid hefyd fwydo i mewn i brojectau newydd. Maes diddordeb allweddol yw'r sector ynni, gyda'r potensial i gysylltu ar draws datblygiad Ysgol Feddygol Gogledd Cymru trwy ymchwil i feddygaeth niwclear a chynhyrchu isotopau meddygol, gan ddefnyddio'r arbenigedd yn Sefydliad y Dyfodol Niwclear.

Yn ystod cyfnod nesaf Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, bydd Ysgol Feddygol Gogledd Cymru yn derbyn ei myfyrwyr cyntaf. Pan fydd ar waith yn llawn, bydd yr ysgol yn hyfforddi 140 o feddygon y flwyddyn trwy raglenni sylfaen a gefnogir gan y GIG. Rydym yn cydweithio â'r bwrdd iechyd lleol i gynyddu ymchwil gwyddorau bywyd a datblygu'r sector hwn ar draws y rhanbarth.

Gwreiddio ein seilwaith ymchwil ac arloesi

Byddwn yn defnyddio arian ysgogi i gynyddu gweithgarwch mewn meysydd sydd â photensial i fanteisio arnynt, drwy Wobr Cyflymu Arloesi ac Effaith fewnol Prifysgol Bangor a mwy o gyfranogiad yn Rhwydwaith Arloesi Cymru a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Bydd integreiddio cyfranogiad yn Rhwydwaith Arloesi Cymru yn cynyddu ein hymchwil a'n harloesi ar lefel ranbarthol a Chymru gyfan, cynyddu cydweithrediaid ar draws y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, gan arwain at fwy o grantiau ymchwil cydweithredol gan gyllidwyr fel UKRI ac Innovate UK.

3.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm:

Mesurau Cenedlaethol Arloesi ac Ymgysylltu:

- Ymchwil cydweithredol: Cyfanswm incwm:
- Ymchwil ar gontract: Cyfanswm incwm:
- Contractau ymgynghoriaeth: Cyfanswm incwm:
- Gwasanaethau cysylltiedig â chyfleusterau ac offer: Cyfanswm incwm:
- Adfywio a datblygu: Cyfanswm incwm (ac eithrio incwm cyfalaf)
- Eiddo deallusol: Cyfanswm y referniw (gan gynnwys gwerthu cyfranddaliadau mewn cwmnïau deillio)

Dangosyddion perfformiad allweddol ychwanegol y brifysgol:

- % o gyllid sbarduno Gwobrau Effaith ac Arloesi Prifysgol Bangor sy'n arwain at incwm ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ymchwil ac arloesi

4. Twf busnes newydd a chefnogi sgiliau

Amlinellwch y cymorth rydych yn bwriadu ei ddarparu ar gyfer busnesau newydd, sgil-fusnesau, a chyflawni targedau cynlluniau fel Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid Llywodraeth Cymru. Rhowch wybodaeth am ble bydd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn ychwanegu gwerth at weithgareddau presennol, a ble bydd yn eich galluogi i fuddsoddi

mewn twf pellach. Amlinellu sut bydd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn cael ei defnyddio i ddatblygu diwylliant o entrepreneuriaeth ac arloesi i fyfyrwyr, gradddedigion ac aelodau staff. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr WXX/XXHE. Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru. [Uchafswm o 500 o eiriau]

Byddwn yn defnyddio cyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru i **ddatblygu llwybrau i'n staff a'n myfyrwyr eu datblygu'n fasnachol ac yn entrepreneuriaidd, yn ogystal â llwybrau i bartneriaid allanol ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd**. Bydd hyn yn cefnogi busnesau i dyfu a ffynnu, gan greu cyfleoedd gwaith a chadw talent yn y rhanbarth i ysgogi twf economaidd.

Mae ein Strategaeth Gyflogadwyedd yn gyrru gweledigaeth y brifysgol ar gyfer sgiliau, ac yng nghyfnod hwn Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, byddwn yn adeiladu ar ein huchelgais i fod yn angor i fewnfuddsoddiad i'r rhanbarth. Byddwn yn sicrhau bod ein cefnogaeth yn addas i'n partneriaid dinesig lleol, a datblygiadau rhanbarthol allweddol megis porthladd rhydd Ynys Môn, fel y gall busnesau gael mynediad at y sgiliau a'r arbenigedd priodol i fanteisio cymaint â phosib ar yrwyr economaidd craidd hirdymor.

Nodau o ran Twf Busnesau Newydd a Chefnogi Sgiliau

3. Cynyddu nifer y busnesau newydd a gychwynnir gan radddedigion a'u hangori yn y rhanbarth fel rhan o ecosystem arloesi a menter.

4. Darparu sgiliau arloesol ar gyfer yr economi ranbarthol

Byddwn yn targedu cymorth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru i gyflawni'r nodau hyn, ar draws tri maes:

Cydweithrediad Addysg Bellach

Byddwn yn adeiladu ar ein hanes helaeth o gydweithio â phartneriaid AB i gefnogi twf yr economi ranbarthol. Mae Bangor wedi ei gwreiddio'n gadarn yn y dirwedd sgiliau rhanbarthol, trwy Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru (2023-2025) yn tynnu sylw at swyddogaeth y brifysgol o ran bodloni gofynion sgiliau'r presennol a'r dyfodol a chynnal twf y sectorau sy'n perfformio'n dda.

Mae'r brifysgol yn cyflwyno darpariaeth Prentisiaethau Gradd yng ngogledd Cymru ar y cyd â Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria a bu'n gweithio gyda Choleg Cambria a'r Brifysgol Agored yng Nghymru (OUinW) ar broject Medru sy'n darparu sgiliau gwerth uchel heb eu hachredu i'r sector gweithgynhyrchu uwch yng ngogledd ddwyrain Cymru a threialu dulliau newydd o gydweithio a darparu. Yn y cam nesaf hwn o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru byddwn yn ategu gweithgareddau ymhellach gyda mentrau, fel Fforwm Datgarboneiddio Glannau Dyfrdwy sy'n cael ei arwain gan y diwydiant, lle mae Bangor a Choleg Cambria yn arwain ar thema STEM a sgiliau ar gyfer y clwstwr.

Mynediad at ddysgu gydol oes

Rydym wedi gwella ein prosesau mewnol ar gyfer datblygu cyrsiau byr (e.e. DPP, dysgu gydol oes, cyrsiau achrededig ac anachrededig, micro-gredydau a dysgu hyblyg). Byddwn

yn parhau i ddatblygu portffolio o ddewisiadau ar gyfer ein partneriaid, gan ymgorffori dull dysgu gydol oes sy'n gwella llwybrau datblygu ar gyfer ailhyfforddi yn ogystal â dal gafael ar staff. Gan adeiladu ar lwyddiant KESS2, byddwn yn cefnogi dull ystwyth o drin ymchwilwyr ôl-radd a ariennir gan y diwydiant trwy sicrhau bod cysylltiadau presennol yn cael eu cynnal, bod rhai newydd yn cael eu datblygu, a bod materion cytundebol ac ariannol yn cael eu trin yn effeithlon.

Gweithgaredd entrepreneuriaid

Bydd tîm Byddwch Fentrus y brifysgol yn cynyddu gweithgarwch entrepreneuriaid, gan gynnwys cymorth a hyfforddiant i academyddion unigol, datblygu dulliau addysgu ac asesu mentrus yn ogystal â gweithgareddau mentrus i fyfyrwyr. Bydd y tîm hefyd yn darparu mwy o gymorth i fyfyrwyr sy'n dechrau busnes trwy fentora un-i-un, cyfleoedd ariannu a lleoliadau hunangyflogaeth.

Mae M-SParc yn darparu cyfleuster unigryw i gefnogi busnesau newydd yn y rhanbarth a denu buddsoddiad, a byddwn yn parhau i integreiddio hyn yn ein gweithgarwch craidd i fusnesau newydd a chwmnïau deillio. Bydd darpariaeth Byddwch Fentrus hefyd yn cynnwys adnodd dechrau busnes ar-lein yn ogystal â llwybr menter trwy Target Connect, sy'n gysylltiedig â Gwobr Cyflogadwyedd Bangor.

4.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer twf busnes newydd a chefnogi sgiliau

Mesurau Cenedlaethol Arloesi ac Ymgysylltu:

- Cyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus ac addysg barhaus: Cyfanswm referniw (£000)
- Cwmnïau deillio (gyda rhywfaint o berchnogaeth partneriaid addysg uwch a'r rhai nad ydynt yn berchen gan bartneriaid addysg uwch), nifer yn dal i fod yn weithredol sydd wedi goroesi 3 blynedd
- Busnesau newydd gan fyfyrwyr: y nifer sy'n dal i fod yn weithredol sydd wedi para o leiaf 3 blynedd
- Cyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus ac addysg barhaus: Cyfanswm dyddiau dysgwyr

Dangosyddion perfformiad allweddol ychwanegol y brifysgol:

- Niferoedd cynyddol o fusnesau newydd gan raddedigion

5. Cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd

Amlinellwch sut bydd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn cefnogi gweithgarwch parhaus neu newydd ar draws eich cymunedau. Mae cenhadaeth ddinesig sy'n seiliedig ar le yn faes eang sy'n ymgorffori amrediad helaeth o weithgareddau gan gynnwys cymorth yn y gymuned i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant, partneriaethau rhwng addysg bellach ac addysg uwch o safbwynt sgiliau, arloesi ac ymgysylltu, ymgysylltu â'r cyhoedd trwy waith ymchwil, a helpu mynd i'r afael â heriau cymdeithasol. Byddai cefnogaeth i'r gymuned ar safle prifysgol ar gyfer, er enghraifft, digwyddiadau, darlithoedd ac ati hefyd yn fodd o gefnogi cenhadaeth ddinesig. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr

WXX/XXHE. *Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru. [Uchafswm o 500 o eiriau]*

Mae ein cenhadaeth ddinesig yn cael ei gyrru gan ein [Strategaeth Genhadaeth Ddinesig](#), a lansiwyd ym mis Hydref 2022. Mae'r strategaeth wedi ei gwreiddio yn y colofnau llesiant sydd wedi eu nodi yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd

5. Gweithio gyda rhanddeiliaid i wneud y canlynol:

- nodi a mynd i'r afael â heriau cymdeithasol (e.e. iechyd y cyhoedd, newid yn yr hinsawdd, yr iaith Gymraeg, tai, tlodi, poblogaeth sy'n heneiddio).
- sicrhau twf economaidd a chynaliadwyedd

6. Gwella ansawdd bywyd trwy gysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol

Mae'r Strategaeth Genhadaeth Ddinesig yn cynnwys tair prif thema sy'n llywio ein gwaith ac yn bodloni'r nodau hyn:

Nodi a mynd i'r afael â 'heriau mawr' (e.e. iechyd, hinsawdd, yr iaith Gymraeg, tai, tlodi, poblogaeth sy'n heneiddio).

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol i fynd i'r afael â'r heriau allweddol hyn. Mae [Bwrdd Cymunedol](#) y brifysgol, a sefydlwyd yn 2022, yn darparu llwyfan i ddod â phartneriaid amrywiol ynghyd e.e. cynghorau cymuned, Grŵp Llandrillo Menai, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, awdurdodau lleol ac ysgolion ac ati i fynd i'r afael â'r problemau cymdeithasol hyn. Rydym yn cyfrannu at y gwaith adfywio ym Mangor trwy Bartneriaeth Strategol Bangor, tra bod ein presenoldeb ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd/Ynys Môn yn ein galluogi i rannu ein hymchwil a chyfrannu at amcanion llesiant y rhanbarth trwy gynllun llesiant newydd 2023-28. Mae [Cynllun Prifysgol y Plant](#) yn galluogi partneriaethau cydweithredol ar draws gogledd Cymru, gan gynnwys Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria ac awdurdodau lleol, gyda'r nod o godi dyheadau a gwella lles plant a phobl ifanc.

Galluogi arloesi a chyfleoedd economaidd

Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith gyda phartneriaid yn y sector preifat ac eraill i greu swyddi, cefnogi busnesau, cadw pobl ifanc yn yr ardal a darparu cymorth, cyngor a chyfleoedd i'n myfyrwyr trwy ein rhaglenni cyflogadwyedd a lleoliadau, gan feithrin cysylltiadau cynaliadwy â phartneriaid lleol a rhanbarthol.

Gwella ansawdd bywyd a rhannu gwybodaeth trwy ymgysylltu cymdeithasol a chyhoeddus

Mae ein hasedau prifysgol, gan gynnwys M-SParc, Canolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio, Canolfan Chwaraeon Brailsford a Gardd Fotaneg Treborth yn cyfrannu at fywydau pobl mewn gwahanol ffyrdd ac yn cyfrannu at wella llesiant unigol a chymunedol. Mae ein hasedau yn darparu addysg, adloniant, menter a chefnogaeth i bobl. Byddwn yn adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol ac yn ymgysylltu â'n cymunedau trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau, arddangosfeydd, cynadleddau, darlithoedd cyhoeddus, a gweithdai. Rydym hefyd yn cefnogi'r projectau amrywiol y mae Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor yn eu

cynnal yn y gymuned, ac ehangu project 'Ar Daith' M-SParc i drefi ychwanegol yng ngogledd Cymru, gan adeiladu ar weithrediad llwyddiannus y fenter ym Mangor a Bae Colwyn.

Byddwn yn ymestyn llwyddiant ein Cronfa Gymunedol i gyfnod y strategaeth hon, gan gefnogi projectau sy'n hybu cydweithio ac ymgysylltu. Cefnogi cysylltiadau â'r gymuned trwy ddigwyddiadau rhanbarthol a Chymru gyfan, byddwn yn cynnal ein diwrnod cymunedol cyntaf yn 2023 gan agor drysau'r brifysgol i'r cyhoedd, a darparu gweithgareddau difyr ac addysgiadol i bob oed a chefnidir.

5.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd

- Cynyddu canran digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgysylltu dinesig y brifysgol 5% (gwaelodlin 2021/22 = 147) (amcan 1,2,3,4,5)
- Cynyddu canran y bobl sy'n mynd i ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgysylltu dinesig y brifysgol 5% (gwaelodlin 2018/19 cyn Covid = 27,062) (amcan 1,2,3,4,5)
- Cynyddu canran y projectau ymchwil/ceisiadau grant sy'n ymwneud â themâu newid cymdeithasol 5% (amcan 4)
- Cynyddu canran yr adnoddau mynediad agored (Cyrsiau Ar-lein Enfawr Agored am ddim, podlediadau, deunyddiau gwe, blogiau, archifau ac ati) 5% (amcan 4, 5)
- Cynyddu canran y cysylltiadau â chyflogwyr a sefydliadau lleol 5% (amcan 3,4)
- Cynyddu canran y cwmnïau lleol a gefnogir trwy gaffael 5% (amcan 4)
- Cynyddu canran y myfyrwyr a'r staff sy'n gwirfoddoli 5% (amcan 2,4)
- Cynyddu nifer y rhanddeiliaid allanol sy'n ymgysylltu â'r Bwrdd Cymunedol (gwaelodlin 2022/23 = 25) (amcan 1,2,3,4,5)

Adran C: Cyd-fynd â pholisi a blaenoriaethau 6. Cyd-fynd â pholisïau Cymru a'r Deyrnas Unedig

Disgrifiwch sut mae eich strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn cyd-fynd â pholisïau rhanbarthol, Cymru a'r Deyrnas Unedig sy'n seiliedig ar le megis e.e. bargeinion twf rhanbarthol / dinas-ranbarth lleol. (Gweler Cylchlythyr WXX/XXHE, paragraff 30) [500 gair ar y mwyaf]

Polisïau a Strategaethau Rhanbarthol

- Mae **Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru (2016)** yn darparu gweledigaeth ar y cyd i ogledd Cymru fod yn rhanbarth hyderus, cydlynol gyda thwf economaidd cynaliadwy, gan fanteisio ar lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a chysylltu ag economïau cryf yng ngogledd Lloegr ac Iwerddon. Mae portffolio'r brifysgol o brojectau Bargaen Twf yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni'r weledigaeth hon.
- Mae'r **Fframwaith Economaidd Rhanbarthol (2022)** yn hyrwyddo cynllunio a chyflawni rhanbarthol cydweithredol ymhlith partneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'n cynnwys blaenoriaethau ar gyfer ymchwil, arloesi ac entrepreneuriaeth, sgiliau, y gadwyn gyflenwi a newid yn yr hinsawdd. Mae cyfraniad Ysgol Feddygol Gogledd Cymru a datblygiad isotopau meddygol

wrth gyflwyno'r Economi Lles Cymdeithasol a Chymunedol, ac M-SParc o ran darparu economi carbon isel ac allyriadau isel ar gyfer y rhanbarth yn weledigaethau a rennir.

- **RSP Gogledd Cymru:** Mae **Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2019-22** yn tynnu sylw at swyddogaeth y brifysgol o ran bodloni gofynion sgiliau'r presennol a'r dyfodol a chynnal twf y sectorau sy'n perfformio'n dda.

Cymru

- Mae **Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026** yn canolbwyntio ar adeiladu economi gynaliadwy a diwydiannau'r dyfodol, gan wneud cynnydd cyflym tuag at ddatgarboneiddio. Mae wedi ymrwmo i sefydlu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru yn unol â'n Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru.
- Mae'r **Strategaeth Arloesi (2023)** yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru o ymdrin ag ymchwil, datblygu ac arloesi ar ôl Cronfeydd Strwythurol yr UE. Wedi ei adeiladu ar sail pedair cenhadaeth arloesi (economi, addysg, hinsawdd a natur ac iechyd a lles). Gall prifysgolion wneud cyfraniad pwysig trwy weithgareddau ymchwil a datblygu ac arloesi. Tynnir sylw at M-SParc fel esiampl i'r academi sgiliau a chymorth busnes, gan arloesi ym maes ynni technoleg amaeth a charbon isel ac mae'n alluogwr hollbwysig wrth gyflawni ein Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru.
- Mae **Pum Blaenoriaeth Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (2021)** yn datgan pwysigrwydd gweithgareddau ymchwil, datblygu ac arloesi i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio a chyrraedd sero net erbyn 2050. Mae cefnogi cyflwyno ei *Rhaglen Lywodraethu* yn cyd-fynd â strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru Bangor ac uchelgais ehangach ar gyfer economi wyrddach.

Y Deyrnas Unedig

- Mae'r **UK Science & Technology Framework (2023)** yn nodi deg cam gweithredu allweddol gyda chanlyniadau i'w cyflawni erbyn 2030, gan gynnwys buddsoddi mewn ymchwil a datblygi a dangos cryfderau ac uchelgeisiau'r Deyrnas Unedig yn fyd-eang. Mae hefyd yn nodi technolegau hanfodol gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, bioleg peirianeg, telathrebu'r dyfodol sydd o ddiddordeb uniongyrchol i Fangor ac sy'n cael sylw gan brojectau arloesi blaenllaw fel y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol a'r Ganolfan Prosesu Signalau Digidol.
- Mae'r **UK Innovation Strategy (2021)** yn dibynnu ar bedair colofn: Rhyddhau busnes, pobl, sefydliadau a lleoedd a chenhadaeth a thechnolegau. Mae'r strategaeth hon yn cefnogi'r dyheadau sydd wedi eu cynnwys yn strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, yn enwedig ein sylw ar arloesi seiliedig ar le a thechnolegau allweddol cysylltiedig.
- Mae'r **UK Research and Development Roadmap (2020)** yn cyd-fynd â'n Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru trwy'r themâu allweddol, e.e. buddsoddi mewn ymchwil a datblygu, arloesi, entrepreneuriaid a busnesau newydd, lle a lefelu.
- Mae nod yr **UKRI Strategy 2022 – 2027: transforming tomorrow together** o adeiladu system ymchwil ac arloesi ddeinamig yn ganolog i'n Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Er mwyn i'r Deyrnas Unedig ddarparu ymateb mwy hyblyg i newid cymdeithasol, amgylcheddol, technolegol ac economaidd, mae UKRI wedi nodi pedwar newid angenrheidiol, sy'n ganolog i'n Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru:
 - Amrywiaeth

- Cysylltedd
- Gwytnwch
- Ymroddiad

7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Rhowch wybodaeth benodol am sut bydd y strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn cefnogi'r saith nod, a'r pum ffordd o weithio a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015:

[Uchafswm o 250 o eiriau]

Mae Bangor yn cefnogi'r **un** egwyddor datblygu cynaliadwy a bydd gweithgareddau sefydliadol yn dangos sut maent yn diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain). I gyflawni hyn, bydd ein gweithgareddau a'n cynllunio yn cael eu cyflwyno a'u harwain yn unol â'r **pedair** colofn, dan arweiniad y **pum** ffordd o weithio, gyda'r **saith** nod llesiant sydd yn greiddiol ym mhorthfolio strategaeth y brifysgol gan gynnwys Strategaeth 2030 y brifysgol.

Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd hefyd â'r **pedair** colofn - economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru' yn nodi pedwar maes blaenoriaeth - a chefnogir y rhain yn ymateb Bangor, gweler isod gydag enghreifftiau (nid yn gynhwysfawr):

1. **Busnesau cynhyrchiol a chystadleuol (Economi).** Er enghraifft:
 - a. Datblygu isadeiledd Arloesi ac Ymgysylltu allweddol ymhellach megis M-SParc, Celfyddydau ac Arloesi Pontio a'r Ganolfan Biogyfansoddion
 - b. Cefnogaeth trwy raglenni KE trwy gyllid cystadleuol Innovate UK, cefnogaeth BBaCh Santander ac ati.
2. **Lleihau'r ffactorau sy'n arwain at anghydraddoldeb incwm (Cymdeithas):**
 - a. Cefnogaeth sgiliau trwy ein portffolio o raddau prentisiaeth a phartneriaid addysg bellach.
 - b. Datblygu Estyn Allan Cymunedol trwy fentrau allweddol megis Celfyddydau ac Arloesi Pontio, MSPARC, gweithgareddau mewn ysgolion ac ati;
3. **Cefnogi'r trawsnewidiad i economi di-garbon (Amgylchedd):**
 - a. Ymrwymiad fel sefydliad i'r safonau uchaf o berfformiad amgylcheddol (ISO14001).
 - b. Cefnogi ymchwil cydweithredol mewn parthau carbon isel
4. **Cymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy (cymdeithas / diwylliant):**
 - a. Hyrwyddo Dinasyddiaeth Weithredol a chydlyniant cymunedol trwy gynlluniau gwirfoddoli myfyrwyr ac ehangu mynediad.
 - b. Sefydlu Elusen Rhwydwaith Ymwybyddiaeth Ofalgar a'r rhaglen Food Dude
 - c. Cefnogaeth i ddysgu cyfrwng Cymraeg yn defnyddio offer Cysgliad trwy Ganolfan Bedwyr.

8. Effaith ar y Gymraeg

Amlinellwch yr effaith gadarnhaol y caiff buddsoddiad Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar gyfleoedd i ddefnyddio a chefnogi'r Gymraeg. Lle bo'n briodol, efallai y byddwch am gyfeirio at y themâu yng nghynllun gweithredu Cymraeg 2050.

[Uchafswm o 250 o eiriau]

Mae Prifysgol Bangor yn croesawu'r weledigaeth a gyflwynir yn **Cymraeg 2050** ac mae ein strategaeth iaith Gymraeg '**Bangor 2050**' yn nodi sut bydd y sefydliad yn cyfrannu at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae cyd-destun sefydliadol unigryw Bangor fel y prif ddarparwr addysg uwch Gymraeg yn y byd a'r gweithlu mwyaf dwyieithog yn y Deyrnas Unedig yn golygu y gall wneud cyfraniad sylweddol. Mae gan ein Strategaeth 2030 ei cholofn drawsbynciol ei hun ar gyfer y Gymraeg, sy'n sail i'n holl ddyheadau gan gynnwys y rhai ym meysydd ymchwil, arloesi a menter. Yn y cyd-destun arloesi a menter yn benodol, bydd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn ein helpu i dyfu a chadarnhau'r datblygiadau canlynol:

- Asedau technolegol megis offer gwirio gramadeg ac offer cyfieithu a gydnabyddir yn fyd-eang a meddalwedd adnabod lleferydd.
- Sefydlu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru fydd â'r nod o gynyddu cyfranogiad mewn addysg feddygol cyfrwng Cymraeg.
- Cefnogi gweithgareddau diwylliannol; o ysgrifennu creadigol i ddarlithoedd cyhoeddus i gefnogaeth ar gyfer datblygu celfyddydau perfformio arloesol Cymraeg trwy ganolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio
- Cyfrannu at hyfforddiant, sgiliau ac adnoddau Cymraeg i oedolion.
- Portffolio helaeth o ymchwil ym meysydd hanes, llenyddiaeth, diwylliant, cymdeithaseg, y gyfraith, busnes, niwroseicoleg dwyieithrwydd, technoleg lleferydd ac iaith, gofal iechyd, a llawer mwy.
- Mentrau estyn allan cymunedol
- Ethos 'Mae'r Gymraeg i bawb' a normaleiddio'r profiad o fyw mewn amgylchedd amlieithog.
- Cefnogaeth i entrepreneuriaid lleol gan roi hwb i'r economi leol trwy iaith a diwylliant.

Adran D: Defnyddio Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

Sut defnyddir eich dyraniad Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar gyfer 2023/24 i gyflawni'r strategaeth a amlinellwyd yn Adran B, a beth yw'r blaenoriaethau a ragwelir gennych ar gyfer defnyddio cyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru dros y blynyddoedd nesaf?
[uchafswm o 250 gair – neu atodwch dabl yn amlinellu'r meysydd buddsoddi bras]

Adran	Nodau	Blaenoriaethau Cyfnod 23/24	Blaenoriaethau Buddsoddi Tymor Hwyr
Masnacheiddio / incwm ymchwil	1. Ennill rhagor o incwm ymchwil ac arloesi trwy gystadleuaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgorffori'r adnodd i gefnogi ceisiadau UKRI • Ymgorffori'r adnodd i ddarparu'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth o ran datblygu busnes a chefnogaeth aliniedig. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ehangu'r sylfaen sefydliadol ar gyfer gweithgareddau UKRI gyda phwyslais cryf ar Innovate UK. • Bargen Twf y Gogledd - cefnogi gweithredu, cyflawni a monitro • Datblygu ac ehangu ymhellach a

		<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi adnoddau Bargen Twf y Gogledd gyda sylw ar gynnal a thyfu'r llwybr. • Ystyried mentrau rhanbarthol arwyddocaol eraill. 	<p>chydabod cryfderau ymchwil ar gyfer cyddestun ar sail lle.</p>
	<p>2. Datblygu ac ehangu ein portffolio masnacheiddio.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Archwilio gwahanol lwybrau masnachol ar gyfer cyflawni gwaith ymgynghorol a masnachol • Darparu cyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio mewn perthynas â'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth i'r sylfaen academiaidd. • Cryfhau'r adnoddau sydd eu hangen i ehangu a datblygu ein portffolio o eiddo deallusol. • Integreiddio isadeiledd presennol Arloesi ac Ymgysylltu yn well (gan gynnwys, M-SParc, Celfyddydau ac Arloesi Pontio, y Ganolfan Biogyfansoddion a'n craidd ymchwil ac arloesi). 	<ul style="list-style-type: none"> • Dull mwy ystwyth a chreadigol o ddefnyddio eiddo deallusol y brifysgol. • Cael mynediad at gronfeydd a llwybrau defnydd ychwanegol. • Cerbydau newydd i wneud gwaith ymgynghorol / masnachol. • Ehangu sylfaen academiaidd weithredol y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth.
<p>Twf busnes newydd/cefnogi sgiliau</p>	<p>3. Cynyddu nifer y busnesau newydd a gychwynnir gan raddedigion a'u hangori yn y rhanbarth fel rhan o ecosystem arloesi a menter.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwreiddio'r adnodd i gefnogi busnesau newydd graddedigion a pharhau i dyfu'r garfan hon. • Cryfhau'r llwybr i entrepreneuriaeth i'n myfyrwyr • Cyfleusterau deor integredig gwell a rhaglenni cychwyn 	<ul style="list-style-type: none"> • Mentrau cymorth newydd i ddatblygu busnesau cychwynnol ymhellach, gwella cyfraddau goroesi ac angori yn y rhanbarth.
	<p>4. Darpariaeth sgiliau arloesol ar gyfer yr economi ranbarthol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwreiddio cefnogaeth a gwella mynediad at ddarpariaeth sgiliau sy'n bwysig i'r rhanbarth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnig darpariaeth well ac estynedig o sgiliau yn y rhanbarth
<p>Cenhadaeth ddinesig/ymwneud â'r cyhoedd</p>	<p>5. Nodi a mynd i'r afael â heriau mawr (e.e. iechyd y cyhoeddus, newid yn yr hinsawdd, yr iaith Gymraeg, tai,</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol i fynd i'r afael â heriau allweddol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno cynigion tymor hwy i gefnogi datblygiad cymdeithasol ac economaidd

	todi, poblogaeth sy'n heneiddio).		
6.	Galluogi arloesi a chyfleoedd economaidd	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda phartneriaid yn y sector preifat ac eraill i greu swyddi, cefnogi busnesau, cadw pobl ifanc yn yr ardal a darparu cymorth, cyngor a chyfleoedd i'n myfyrwyr trwy ein rhaglenni cyflogadwyedd a lleoliadau. 	<ul style="list-style-type: none"> Mentrau newydd gan gynnwys dealltwriaeth gyhoeddus ranbarthol o brojectau gwyddoniaeth (e.e. Sw Mynydd Cymru, Parc Geo Môn a Phroject y Ddaear). Cefnogaeth i greu mentrau cymdeithasol newydd yn seiliedig ar eiddo deallusol Bangor a busnesau newydd myfyrwyr.
7.	Gwella ansawdd bywyd a rhannu gwybodaeth trwy ymgysylltu cymdeithasol a chyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> Integreiddio mentrau allymestyn cymunedol yn well - adeiladu ar yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd ac ymgysylltu â'n cymunedau ar ôl Covid trwy amrywiaeth o ddiwydiadau, arddangosfeydd, cynadleddau, darlithoedd cyhoeddus a gweithdai. 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu strategol pellach e.e. Gardd Fotaneg Treborth, rhaglenni allymestyn ysgolion sy'n gysylltiedig ag arloesi ac ymgysylltu. Ehangu Gweithgareddau estyn allan cymunedol i gynnwys mentrau newydd.

i) Safonau'r Gymraeg (2018) [Defnyddiwch y gwymplen]	Mae'r strategaeth hon yn cydymffurfio â
ii) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [Defnyddiwch y gwymplen]	Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi ei gynnal ar gyfer y strategaeth hon
iii) 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) < http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=en > [Defnyddiwch y gwymplen]	Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
Cadarnhaf fod y brifysgol wedi ymrwmo i egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a'i bod yn gwbl ymrwymedig i'w wyth prif egwyddor.	
Llofnod: Is-ganghellor	

Dyddiad

Click or tap to enter a date.